



Coedwig  
Genedlaethol i Gymru  
National Forest  
for Wales



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Pecyn Cymorth Rhanddeiliaid

Ein gwreiddiau ar gyfer y dyfodol



# Cynnwys

---

- 01 Cyflwyniad
- 02 Sut y gallwch chi helpu
- 03 Cyfleoedd Ymgysylltu
- 04 Deunyddiau'r Ymgyrch
- 05 Negeseuon yr Ymgyrch
- 06 Cymorth Hygyrchedd



## Cyflwyniad

Mae Coedwig Genedlaethol Cymru yn fenter unigryw dan arweiniad Llywodraeth Cymru i sefydlu rhwydwaith cenedlaethol o goetiroedd a choedwigoedd sy'n hygyrch i'r cyhoedd ac o dan reolaeth o ansawdd uchel.

Bydd y Goedwig Genedlaethol yn ymestyn ar hyd a lled Cymru, felly bydd pawb yn gallu cael mynediad ati lle bynnag y maent yn byw.

Bydd ymgysylltu â'r gymuned yn rhan flaenllaw o waith datblygu safleoedd y Goedwig Genedlaethol. Byddant yn goetiroedd hygyrch a fydd yn darparu cyfleoedd ar gyfer hamdden, addysg ac ymarfer corff.

Bydd yn goedwig gynhwysol a fydd yn chwarae rôl bwysig o ran diogelu natur a mynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth, gan gefnogi iechyd a lles cymunedau yn ogystal â helpu i greu coetiroedd a hybu twf y diwydiant pren.

Rydym nawr am ddeall lle y dylem ganolbwyntio ein cymorth a lle byddai pobl yn hoffi gweld Coedwig Genedlaethol Cymru yn tyfu. I wneud hyn, mae angen eich help arnom i annog pobl ledled Cymru i fynegi eu barn.



## Sut y byddwn yn ymgysylltu â phobl yng Nghymru

Nid yw Coedwig Genedlaethol Cymru wedi cael ei llunio eto, ond nawr gyda chymorth pawb gallwn ddechrau dychmygu sut y bydd yn edrych a sut y caiff ei chysylltu ledled Cymru. Gallwn ddechrau deall lle yr hoffai pobl weld mwy o goed yn cael eu plannu a choetiroedd yn cael eu creu ledled Cymru.

Mae'r map rhyngweithiol digidol ar-lein a gynhrychir gan Map Data Cymru yn dangos coetiroedd sy'n rhan o Goedwig Genedlaethol Cymru. Drwy ofyn i bobl ddefnyddio'r map rhyngweithiol, a gollwng pin

rhithwir ar leoliad penodol, gallwn ddod o hyd i'r mannau mwyaf poblogaidd lle hoffai pobl weld mwy o goed a choetiroedd ar draws y wlad.

Dyma gyfle i bawb ymuno gan osod pin ar y map drwy;

- 1 chwyddo mewn i ardal o ddiddordeb ar y map
- 2 clicio ar y map lle hoffech weld coed yn cael eu plannu
- 3 clicio 'Cadarnhau'
- 4 clicio 'Cyflwyno'

# Dweud eich dweud



## Sut y gallwch chi helpu

Hoffem gael eich help i roi'r gair ar led am Goedwig Genedlaethol Cymru drwy rannu cynnwys gyda'ch rhwydweithiau. Gyda'ch cymorth chi, gallwn annog mwy o bobl yng Nghymru i chwarae eu rhan yn y gwaith o lunio Coedwig Genedlaethol Cymru.

Rhowch wybod inni os gallwch helpu i roi'r gair ar led am Goedwig Genedlaethol Cymru drwy rannu cynnwys gyda'ch rhwydweithiau, gan aildrydar, aillbostio neu dagio. Os ydych chi'n gwneud hynny, rhowch wybod i ni lle rydych chi'n rhannu.

Rydym wedi cynnwys awgrymiadau ar gyfer negeseuon i'r cyfryngau cymdeithasol yn y pecyn hwn. Os ydych chi'n rhannu negeseuon, a wnewch chi ein tagio a chynnwys ein hashnod [#CoedwigGenedlaetholCymru](#) os gwelwch yn dda. Hefyd, os nad ydych yn gwneud hynny eisoes, a wnewch chi ein dilyn a'n hoffi ar y sianeli cyfryngau cymdeithasol canlynol:

 @NewidHinsawdd

 @llywodraethcymru

**Yn ogystal â chefnogi Coedwig Genedlaethol Cymru ar eich sianeli cyfryngau cymdeithasol gallwch hefyd gymryd rhan drwy wneud y canlynol:**

- Lletya cynnwys a graffigau ar eich gwefan
- Rhannu cynnwys a graffigau drwy eich cylchlythyrau
- Rhannu'r ddolen [Map Data Cymru](#)



## Deunyddiau'r ymgyrch

---

Mae gennym gyfres o ddeunyddiau i hyrwyddo Coedwig Genedlaethol Cymru ac rydym yn annog pobl i gymryd rhan drwy ollwng pin ar y map rhyngweithiol.

Gellir lawrlwytho adnoddau hyrwyddo'r Goedwig Genedlaethol ar gyfer rhanddeiliaid o [LLYW.Cymru](http://LLYW.Cymru), gan gynnwys.

Resources include:

---

- graffigau i'r cyfryngau cymdeithasol
- ffilmiau
- ffeithluniau
- animeiddiadau



## Negeseuon yr ymgyrch

### Enghreifftiau o negeseuon ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol

Bydd [#CoedwigGenedlaetholCymru](#) yn rhwydwaith o goetiroedd a choedwigoedd hygyrch ar hyd a lled Cymru. Gallwch chi helpu i'w llunio.

Mae [#CoedwigGenedlaetholCymru](#) yn perthyn i bob un ohonom – byddwch yn rhan ohoni



Bydd y [#GoedwigGenedlaethol](#) o fudd i bob un ohonom - gan ddod â manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.



Bydd [#CoedwigGenedlaetholCymru](#) yn cynnig amrywiaeth o fanteision – diogelu natur, cefnogi iechyd a lles yn ogystal â helpu i greu coetiroedd a hybu twf y diwydiant pren.



Gallwch helpu i lunio [#CoedwigGenedlaetholCymru](#) drwy ddweud wrth [@NewidHinsawdd](#) lle yr hoffech weld mwy o goed yn cael eu plannu drwy ollwng pin ar y [map rhyngweithiol](#) hwn.

# Mwy na choed

# Negeseuon yr ymgyrch

Enghraifft o destun ar gyfer erthygl mewn cylchlythyr



## Coedwig Genedlaethol Cymru - Beth mae'n ei olygu i chi?

Author : Time : Date



Mae [Coedwig Genedlaethol Cymru](#) yn fenter unigryw dan arweiniad Llywodraeth Cymru i sefydlu rhwydwaith cenedlaethol o goetiroedd a choedwigoedd sy'n hygyrch i'r cyhoedd ac o dan reolaeth o ansawdd uchel. Nawr, gyda chymorth unigolion gallwn ddechrau dychmygu sut y bydd yn edrych a sut y caiff ei chysylltu.

### Dweud eich dweud:

Rydym am glywed gan bawb, gan ddinasyddion, busnesau a sefydliadau yng Nghymru ynghylch lle y dylem dyfu ein Coedwig Genedlaethol. Defnyddiwch fap rhyngweithiol Map Data Cymru a gollwng pin rhithwir ar leoliad yng Nghymru lle hoffech weld mwy o goed. Yna gallwn ddod o hyd i'r lleoedd mwyaf poblogaidd yng Nghymru lle hoffai pobl weld mwy o goed a choetiroedd.

Evch i [Coedwig Genedlaethol Cymru | LLYW.Cymru](#) i gael rhagor o wybodaeth am Goedwig Genedlaethol Cymru a chael cyngor ar greu coetiroedd.

## Cymorth Hygyrchedd

Mae hon yn neges arbennig i sefydliadau ac unigolion sy'n gweithio gyda phobl sy'n cael anawsterau o ran cael mynediad i'r rhyngwrwyd. Rydym am sicrhau ein bod yn rhoi'r cyfle i gynifer o bobl â phosibl ddweud eu dweud ar Goedwig Genedlaethol Cymru.

**Ydych chi'n gallu cefnogi hyn drwy unrhyw un o'r dulliau canlynol?**

- **Allech chi** helpu rhywun mewn sesiwn un-i-un gyda chyfrifiadur neu gyfrifiadur llechen i ddarganfod rhagor am Goedwig Genedlaethol Cymru, a gollwng pin ar y map rhyngweithiol?
- **Ydych chi'n** trefnu cyfarfod neu grŵp gweithgareddau rheolaidd lle gallech ddangos un o'n fideos a thrafod beth fyddai Coedwig Genedlaethol yn ei olygu i'ch aelodau, gan eu hannog i ollwng pin ar fap.

Os ydych chi'n meddwl y gallwch chi helpu, anfonwch e-bost atom i roi gwybod inni yn [CoedwigGenedlaetholCymru@llyw.cymru](mailto:CoedwigGenedlaetholCymru@llyw.cymru)





Coedwig  
Genedlaethol i Gymru  
National Forest  
for Wales



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government